

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ysbyty Werndale BMI

Dyddiad y gweithgarwch: 19 Awst 2020

Dyddiad cyhoeddi: 15 Medi 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ysbyty Werndale BMI fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn ffurfio rhan o ddull gweithredu haenog o ran sicrwydd ac mae'n un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â Chyfarwyddwr yr Ysbyty (y Rheolwr Cofrestredig) ar 19 Awst 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

Trefniadau COVID-19

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19; pa newidiadau mae wedi'u gwneud i sicrhau y gall barhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwnaethom adolygu polisiau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar gyfer atal a rheoli heintiau a chadw gwyliadwriaeth a rheoli achosion. Roedd gweithdrefn Rheoli COVID-19 hefyd wedi cael ei llunio, a oedd wedi cael ei hadolygu'n rheolaidd ac roedd fersiynau'n cael eu rheoli.

Roedd asesiad risg atal a rheoli heintiau COVID-19 cynhwysfawr, a oedd yn cwmpasu holl

swyddogaethau'r ysbyty, wedi cael ei gwblhau ac roedd camau gweithredu wedi cael eu cymryd i sicrhau bod risgiau i'r staff, y cleifion ac ymwelwyr yn cael eu lleihau.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cynnal amrywiaeth o gyfarfodydd er mwyn diweddarau ei hun ar y canllawiau COVID-19 diweddaraf a'u cyfathrebu. Roedd y rhain yn cynnwys galwadau dyddiol ac wythnosol â rheolwyr BMI er mwyn sicrhau bod yr ysbyty'n cael ei weithredu'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd cyfarfodydd llywodraethu'r ysbyty lleol wedi cynyddu o fod yn fisol i fod yn wythnosol, gan gynnwys staff o bob adran yn yr ysbyty. Yn ogystal, roedd cyfarfodydd tîm dyddiol wedi parhau i gael eu cynnal ond roedd galwadau fideo wedi cymryd eu lle. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y galwadau hyn wedi cael eu hymestyn i gynnwys yr holl staff sy'n gweithio ar y safle, gan gynnwys cydweithwyr y GIG.

Dyweddodd y gwasanaeth wrthym fod PPE wedi bod ar gael i'r holl staff yn gyffredinol, gyda hyn yn gwella wrth i'r pandemig ddatblygu. Nododd y gwasanaeth fod cydberthynas dda â'r bwrdd iechyd lleol wedi ychwanegu ymhellach at atgyfnerthu'r cyflenwad PPE.

Dywedwyd wrthym fod y staff wedi cael hyfforddiant ychwanegol ar sut i ddefnyddio PPE yn gywir a bod pwyslais wedi bod ar arsylwi ar y staff er mwyn sicrhau bod canllawiau PPE yn cael eu dilyn. Dywedwyd wrthym fod pum aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ffitio'r wyneb¹ a bod dros 90 o staff clinigol wedi cael eu ffitio.

Fel rhan o'r gweithdrefnau cyn derbyn wedi'u diweddarau yn sgil COVID-19, dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth wedi rhoi gweithdrefnau sgrinio a phrofi trwyadl ar waith ar gyfer y cleifion. Yn unol â chanllawiau NICE², roedd yn ofynnol i'r holl gleifion gwblhau cyfnod ynysu a chael prawf COVID-19, gan sicrhau bod yr ysbyty yn cael canlyniad negatif cyn unrhyw lawdriniaeth. Roedd hyn yn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint i'r staff a'r cleifion eraill, wrth gefnogi'r claf i wella ar yr un pryd.

Gwelsom dystiolaeth hefyd o fesurau sgrinio eraill a oedd wedi'u cynllunio i ddiogelu'r cleifion a'r staff, gan gynnwys holi pawb am symptomau wrth fynedfa'r gwasanaeth a chymryd tymheredd.

Disgrifiodd y gwasanaeth nifer o drefniadau a oedd wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn helpu i gefnogi'r staff yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys cyfathrebu â'r holl staff yn rheolaidd ar lefel grŵp BMI ac ar lefel leol. Dywedodd y gwasanaeth wrthym fod pwyslais wedi cael ei roi ar sicrhau diogelwch amgylchedd y ward a mynediad i PPE, er mwyn helpu i feithrin a chynnal hyder ymhlith y staff o'r cychwyn cyntaf.

Dyweddwyd wrthym fod staff yr oedd angen iddynt warchod wedi cael eu nodi ar gam cynnar a bod trefniadau wedi cael eu gwneud i barhau i'w talu'n llawn. Yn yr un modd, dywedwyd wrthym hefyd fod lefel gyflog unrhyw aelod o staff nad oedd wedi gallu gweithio ei oriau gwaith llawn oherwydd effeithiau COVID-19 wedi cael ei chynnal.

Roedd y camau eraill a ddisgrifiwyd yn cynnwys mynediad i weithgareddau a Rhaglen Cymorth i Gyflogeion BMI, a oedd wedi cael ei hymestyn i deuluoedd y staff.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

¹ Mae hyn yn galluogi staff hyfforddedig i sicrhau bod cyfarpar diogelu anadlol yn ffitio staff eraill yn gywir a'u bod yn cael hyfforddiant digonol i'w ddefnyddio.

² Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal: <https://www.nice.org.uk/guidance/ng179>

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau ac unrhyw achosion o friwiau pwyso neu niwed i'r meinwe. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom fod asesiad risg amgylcheddol blynyddol wedi cael ei gwblhau a bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd lle y bo'n briodol. Cefnogwyd hyn gan amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau er mwyn helpu i gefnogi diogelwch y staff, y cleifion ac ymwelwyr.

Mae gan y gwasanaeth amrywiaeth o archwiliadau a gynhelir drwy gydol y flwyddyn er mwyn cefnogi diogelwch y cleifion ymhellach. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau ar gwmpadau a briwiau pwyso a niwed i'r meinwe. Gwnaethom edrych ar sampl o'r rhain a gwelsom fod y gwasanaeth wedi cael sgôr gadarnhaol.

Gwelsom fod trefniadau ymweld â chleifion safonol wedi cael eu gohirio yn ystod y pandemig, yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd. Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod ymweliadau wedi cael eu rheoli mewn dull priodol, a oedd yn cynnwys ymweld mewn amgylchiadau eithriadol yn unig a gyda chaniatâd yr uwch-reolwyr. Roedd galwadau ffôn neu alwadau fideo yn cael eu hannog lle bynnag y bo modd.

Yn ystod y pandemig, bu'r gwasanaeth yn cydweithio â'r bwrdd iechyd lleol er mwyn helpu i ddarparu'r gallu a'r adnoddau i gefnogi triniaeth frys a chritigol o ran amser ar gyfer achosion cleifion allanol a llawfeddygol.

Gwnaethom drafod â'r gwasanaeth sut y gwnaeth barhau i ddiwallu anghenion gofal a thriniaeth y cleifion hyn yn ystod y pandemig. Dywedwyd wrthym fod COVID-19 wedi arwain at ymgysylltu a chyfathrebu â'r cleifion yn fwy a helpodd y gwasanaeth i ddeall anghenion unigol yn well. Hefyd, roedd gwiriadau cyn derbyn wedi'u cryfhau, megis sgrinio COVID-19, wedi helpu i sicrhau bod cleifion yn addas i ddefnyddio'r gwasanaeth ac i gael triniaeth ddilynol.

Dyweddodd y gwasanaeth wrthym, er nad oedd yn darparu triniaeth y tu hwnt i'r hyn y byddai'n ei darparu fel arfer, y gallai anghenion y cleifion fod yn wahanol oherwydd yr angen brys am driniaeth. Gwnaethom archwilio'n fras sut y byddai'r gwasanaeth yn cludo cleifion anhwlus neu gleifion sy'n dirywio a chawsom sicrwydd bod cytundeb lefel gwasanaeth rhwng Ysbyty Werndale BMI a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar waith i'r cleifion gael eu trosglwyddo mewn argyfwng.

Roedd y newidiadau eraill a nodwyd yn cynnwys addasu amgylchedd y wardiau i gyflwyno systemau un ffordd, rhoi system mynediad diogel newydd ar waith a phob claf yn cael gofal mewn ystafelloedd en-suite unigol, yn hytrach nag amgylchedd ward agored.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr a adolygwyd yn ddiweddar ar gyfer atal a rheoli heintiau.

Roedd amrywiaeth o archwiliadau diweddar â sgôr uchel hefyd wedi cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau ar gydymffurfiaeth atal a rheoli heintiau gyffredinol, hylendid dwylo a chadw pellter cymdeithasol. Dywedodd y gwasanaeth wrthym hefyd fod y rheolwyr yn cynnal hapwiriadau ansawdd rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion PPE.

Gwelsom dystiolaeth bod mwy o lanhau yn digwydd ym mhob ardal i gleifion a phob ardal glinigol, gan gynnwys: dihalogi ystafelloedd y cleifion, yr amgylchedd a'r cyfarpar, a hefyd reoli dillad gwely a gollyngiadau.

Gwnaethom gadarnhau hefyd fod trefniadau glanhau wedi cael eu gwella mewn ardaloedd clinigol, megis y theatr, er mwyn sicrhau bod ardaloedd yn cael eu glanhau'n drwyadl ar adegau addas, e.e. yn dilyn gweithdrefnau cynhyrchu aerosol.

Roeddem yn falch nodi bod y gwasanaeth wedi cymryd camau ers ei arolygiad AGIC diweddaraf i sicrhau bod materion atal a rheoli heintiau a oedd yn weddill yn ymwneud â'r amgylchedd wedi cael eu cwblhau mewn modd amserol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti wardiau, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisiau (megis uwchgyfeirio).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedodd y gwasanaeth wrthym nad oedd wedi cael unrhyw broblemau staffio amlwg yn ystod y pandemig a bod gwaith blaengynllunio wedi digwydd ar ddechrau'r pandemig. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod y gwasanaeth yn ymgymryd â nifer o restrau dewisol, gan ei alluogi i gynllunio ymlaen llaw yn effeithiol.

Roedd gwaith cynllunio arall yn cynnwys sgyrsiau cynnar â'r staff am y rhai y gallai fod angen iddynt ynysu a chefnogi'r staff i deimlo'n hyderus yn y gweithle. Roedd yn braf clywed y gwasanaeth yn cadarnhau bod y cyfrifoldeb personol a ddangoswyd gan y staff wedi bod yn rhagorol.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau pa brosesau roedd y gwasanaeth yn eu dilyn i reoli materion staffio yn unol â dibyniaeth y cleifion, gan gynnwys sut roedd carfan iach o staff banc yn cyflenwi adeg absenoldeb annisgwyl neu wyliau blynyddol. Dywedodd y gwasanaeth wrthym hefyd fod staff asiantaeth ar gael, ond bod yr angen am gymorth asiantaeth yn parhau i fod yn isel. Cadarnhaodd y gwasanaeth fod ymdrechion wedi cael eu gwneud i gynnal trosiant isel o staff asiantaeth yn ystod y pandemig er mwyn sicrhau bod pobl yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau a lleihau'r risg o drosglwyddo'r haint.

Nododd y gwasanaeth y gallai'r defnydd o staff asiantaeth a staff banc gynyddu yn y misoedd i ddod oherwydd bod ei staff contract wedi cronni gwyliau blynyddol. Fodd bynnag, gwnaethom gadarnhau y bydd staff contract bob amser ar ddyletswydd bob sifft i gefnogi'r staff asiantaeth a'r staff banc sy'n cael eu defnyddio.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod lefelau cwblhau hyfforddiant gorfodol yn uchel a dywedwyd wrthym fod hyn yn cael ei fonitro'n ofalus gan y rheolwyr ar y safle. Dywedodd y gwasanaeth wrthym hefyd fod yr holl staff newydd yn cwblhau sesiwn sefydlu orfodol, gan ymgyfarwyddo â'r gwasanaeth, amgylchedd y ward a pholisïau a gweithdrefnau BMI.

Gwnaethom archwilio sampl o ddigwyddiadau a thrafod y rhain â'r gwasanaeth i ddeall sut y rhoddir gwybod am ddigwyddiadau, sut y cânt eu rheoli a sut yr ymatebir iddynt. Disgrifiodd y gwasanaeth broses glir ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau drwy BMI RiskMan (system rheoli risg), gan gynnwys sut y cawsai'r rhain eu hadolygu mewn cyfarfodydd llywodraethu a sut y cawsai adborth a gwersi eu rhannu.

O dan y rheoliadau, yr Unigolyn Cyfrifol oedd yn gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff lleoliadau cofrestredig eu rheoli. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau â'r gwasanaeth a llunio adroddiad bob chwe mis.

Roedd yn bleser gennym nodi, yn dilyn yr ymweliad diweddaraf, fod adroddiad manwl wedi cael ei lunio. Roedd hyn yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r lleoliad a'i reolaeth gan yr Unigolyn Cyfrifol.

Er mwyn bod yn fodlon ar addasrwydd clinigydd i ymarfer o BMI Werndale, dangosodd y gwasanaeth weithdrefn gynhwysfawr ar gyfer caniatáu breintiau ymarfer. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau manylion adnabod, statws cytundebol a chofrestriad proffesiynol.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwnaethom edrych ar weithdrefn Fframwaith Llywodraethu COVID-19 a gwelsom ei bod ond yn ystyried rheoliadau Lloegr a fframwaith y Comisiwn Ansawdd Gofal ar gyfer rhoi gwybod am

ddigwyddiadau a hysbysiadau statudol.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig (Cyfarwyddwyr Gweithredol yr Ysbyty) wrthym y byddai unrhyw ofynion datganoledig neu ranbarthol yn disodli'r weithdrefn hon. Fodd bynnag, am fod gwasanaethau yn cael eu rheoleiddio o dan fframwaith rheoleiddio gwahanol yng Nghymru, mae'n rhaid i'r gwasanaeth allu rhoi tystiolaeth o weithdrefn ysgrifenedig wedi'i diweddarau er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC y rhoddir gwybod am ddigwyddiadau a hysbysiadau statudol mewn modd cywir ac amserol.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriadau, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain isod:

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Werndale BMI

Dyddiad y gweithgarwch: 19 Awst 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn. Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|---|---|---|------------------|-----------|
| 1 | <p>Gwnaethom edrych ar weithdrefn Fframwaith Llywodraethu COVID-19 a gwelsom ei bod ond yn ystyried rheoliadau Lloegr a fframwaith y Comisiwn Ansawdd Gofal ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau a hysbysiadau statudol.</p> <p>Am fod gwasanaethau yn cael eu rheoleiddio o dan fframwaith rheoleiddio gwahanol yng Nghymru, mae'n rhaid i'r gwasanaeth allu rhoi tystiolaeth o weithdrefn ysgrifenedig wedi'i diweddarau er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC y rhoddir gwybod am ddigwyddiadau a hysbysiadau statudol</p> | Rheoliad 31 Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | Cam gweithredu i ddiweddarau gweithdrefn fframwaith Llywodraethu COVID-19 i sicrhau bod cyfeiriad priodol at y fframwaith rheoleiddio gwahanol yng Nghymru. | Jacky Jones | Cwblhawyd |

mewn modd cywir ac amserol.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Jacky Jones

Dyddiad: 07/09/2020